

Awdurdod Lleol	Cyngor Bro Morgannwg
Nifer yr Holl Gynlluniau	10
Cyfanswm Cost (yr holl gynlluniau)	£519,000 – ein dyraniad yw £410,000 felly maent yn nhrefn blaenoriaeth (nid yw 9 a 10 yn gymwys ar gyfer arian)

Enw'r Cynllun	Dylunio Manwl a thystiolaeth ategol o'r A4050 Waycock Cross i Faes Awyr Cymru Caerdydd
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Ddynodedig	Y Rhws a'r Barri – Cyfeirnod Grid Prydain Fawr yr AO: ST 09405 68500
Cyfeiriad(au) ERM/INM	VALE-PROP-RH-C0020
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Dyluniad manwl (gan gynnwys arolygon defnydd ac ymgynghori) y llwybr teithio llesol o Waycock Cross, y Barri i Faes Awyr Cymru Caerdydd. Trwy ddarparu'r llwybr hwn, byddai modd cysylltu llwybr beicio/troedffordd Croes Cwrlwys â llwybr cyswllt y Rhws i Faes Awyr Caerdydd.
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	<p>Mae'r gwaith yn cynnwys cyswllt troedffordd/llwybr beicio 1.7 milltir o gylchfan Waycock Cross, Port Road, y Barri i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a gwaith cysylltiedig i gynnwys cyfleusterau croesi. Bydd y cynllun hefyd yn ychwanegu gwelliannau porth i'r coridor hwn i Faes Awyr Caerdydd er mwyn codi proffil ffordd ddynesu'r maes awyr.</p> <p>Ym mlwyddyn ariannol 2020/21 bydd arolygon yn cael eu cynnal, caiff dyluniad manwl ei gwblhau a chynhelir ymgynghoriad er mwyn bod yn barod ar gyfer adeiladu ym mlwyddyn ariannol 2021/22 a fydd yn para 10 mis.</p> <p>Mae'r cynllun hwn wedi'i nodi'n flaenoriaeth uchel yn ein Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Enw'r cynllun – Yr A4050 Croes Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd Elfen 2: Yr A4050 Port Road i Faes Awyr Caerdydd. Pan oedd yr INM yn cael eu creu yn 2017, sgoriwyd y llwybr hwn yn fethiant critigol ac nid oedd rhannau ohono wedi cael eu harchwilio gan nad oedd y droedffordd yn gyflawn.</p>

	<p>Mae'r llwybr cymudo prysur presennol o Groes Cwrlwys ar yr A4050 i Faes Awyr Caerdydd a'r Ardal Fenter yn ffordd 40mya a 50mya ac mae'n darparu ar gyfer dros 35,000 o symudiadau cerbyd bob dydd. Ar hyn o bryd, yr unig ffordd o deithio'n ddiogel rhwng Waycock Cross, y Barri a Maes Awyr Caerdydd yw trwy ddefnyddio trafndiaeth ffordd ac ystyrir nad yw'r llwybr cerdded i ysgolion a cholegau ar gael gan fod rhannau sylweddol o'r droedffordd ar goll.</p> <p>Bydd y cynllun yn lleihau allyriadau carbon trwy alluogi beicwyr a cherdddwyr gyrraedd safleoedd cyflogaeth, gan gynnwys Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd – Ardal Fenter Sain Tathan. Bydd cwblhau'r ddolen goll hon yn galluogi teithio llesol o gyrion Caerdydd i'r maes awyr a'r tu hwnt.</p> <p>Gellid rhoi arian cyfatebol ar gyfer adeiladu'r cynllun trwy gyfraniadau trafndiaeth gynaliadwy Adran 106.</p> <p>(Blaenoriaeth 1 o 10)</p>
Amserlen Ddisgwyliedig	10 mis
Amcan Gost	£ 70,000

Enw'r Cynllun	Dichonoldeb a Dyluniad y Barri (Cylchfan Gladstone Road i gylchfan Biglis)
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Y Barri
Cyfeiriad(au) ERM/INM	VALE-PROP-BA-C020, VALE-PROP-BA-P050
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Dichonoldeb a dyluniad (gan gynnwys arolwg topograffig ac archwiliad diogelwch ar y ffyrdd) o'r llwybr teithio llesol o gylchfan Gladstone Road i gylchfan Biglis yn y Barri. Bydd y cynllun yn ystyried y posibilrwydd o greu dolen o lwybr teithio llesol presennol ar Millennium Way i lwybr teithio llesol newydd posibl o gylchfan Biglis i Ddinas Powys. Byddai cysylltu'r cynlluniau hyn â'i gilydd yn darparu'r rhan fwyaf o droedffordd/llwybr beicio a rennir o Ynys y Barri i Gaerdydd.
Yr Achos dros Newid	Byddai'r cynllun arfaethedig yn creu llwybr teithio llesol y gellid ei ddefnyddio gan nifer o safleoedd cyflogaeth

(disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	<p>ar Ffordd Caerdydd, y Barri, gan gynnwys Dow Corning a nifer o ystadau diwydiannol. Roedd yr archwiliadau INM a gynhaliwyd o'r llwybr hwn o'r blaen wedi'i sgorio'n fethiant critigol oherwydd y nifer uchel o geir a cherbydau nwyddau trwm a oedd yn teithio ar gyflymder wrth ymyl llwybr cerdded cul. Byddai creu cyfleuster mwy o faint a rennir yn unioni'r methiant blaenorol.</p> <p>(Blaenoriaeth 2 o 10)</p>
Amserlen Ddisgwyliedig	6 mis
Amcan Gost	£45,000

Enw'r Cynllun	Dichonoldeb a Dyluniad y Bont-faen (Geraint's Way i Eastgate)
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Y Bont-faen
Cyfeiriad(au) ERM/INM	VALE-PROP-CIW-P002, VALE-PROP-COWC002
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Dichonoldeb a dyluniad (gan gynnwys arolwg topograffig ac archwiliad diogelwch ar y ffordd) llwybr teithio llesol o Geraint's Way i Eastgate yn y Bont-faen. Byddai'r cynllun yn darparu troedffordd/llwybr beicio a rennir o'r Cross Inn i'r Bont-faen.
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	<p>Yn dilyn datblygu safle Fferm y Darren ar gyrion y Bont-faen, mae mawr angen dolen teithio llesol o'r stad sydd â 450 o dai. Yn unol â chytundeb Adran 278 â'r datblygwr, gosodwyd troedffordd/llwybr beicio a rennir i gysylltu'r A48 a'r B4270. Mae darn ar goll a fydd yn cysylltu'r B4270 ag Eastgate (canol tref y Bont-faen). Mae'r darn yn 400 metr o hyd.</p> <p>Byddai'r cynllun arfaethedig yn creu llwybr teithio llesol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun y Bont-faen (ar hyn o bryd mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar droi'r ysgol yn ysgol "pob oedran" ar gyfer disgyblion 3 i 18 oed). Mae disgwyl i ysgol gael ei hagor ar safle Fferm y Darren a bydd y darn hwn yn galluogi teithio llesol o ganol y dref.</p> <p>Mae cyllid trafniadaeth gynaliadwy A106 ar gael i helpu gyda chostau adeiladu yn y dyfodol.</p>

	(Blaenoriaeth 3 o 10)
Amserlen Ddisgwyliedig	6 mis
Amcan Gost	£35,000

Enw'r Cynllun	Dichonoldeb a Dyluniad Llanilltud Fawr (Cyfnewidfa Llanilltud Fawr i'r B4265 Llanmaes Road)
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Llanilltud Fawr
Cyfeiriad(au) ERM/INM	VALE-LM-C0010, VALE-LM-P0100
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Dichonoldeb a dyluniad (gan gynnwys arolwg topograffig ac archwiliad diogelwch ar y ffyrdd) o lwybr teithio llesol ar hyd Llanmaes Road a fyddai'n cysylltu â lwybr teithio llesol o flaen datblygiad tai newydd ar y B4265.
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	Byddai'r llwybr teithio llesol arfaethedig yn gwella mynediad i ganol tref Llanilltud Fawr, Ysgol Gynradd Illtud Sant, Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr, Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Ddraig. Ar hyn o bryd, mae'r palmant i gerdded, beicio neu sgwtio ar hyd y darn hwn yn eithaf cul a byddai gwelliannau'n hybu teithio llesol. Byddai hyn hefyd yn cysylltu â'r Ffordd Fynediad Ogleddol newydd ac Ardal Fenter Sain Tathan. Gellid rhoi arian cyfatebol ar gyfer adeiladu'r cynllun trwy gyfraniadau trafndiaeth gynaliadwy Adran 106. (Blaenoriaeth 4 o 10)
Amserlen Ddisgwyliedig	6 mis
Amcan Gost	£35,000

Enw'r Cynllun	Gorsaf ddocio e-feiciau - Sili
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Sili

Cyfeiriad(au) ERM/INM	VALE-PROP-SU-C020
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Mae cyllid ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy A106 yn cael ei ddefnyddio i roi cynllun e-feiciau ar waith ym Mhenarth yn 19/20. Cafodd y cynllun peilot hwn glod uchel gan breswylwyr ac mae ceisiadau wedi'u derbyn gan breswylwyr Sili i estyn y cynllun i'w pentref nhw. Mae'r cais hwn ar gyfer gorsaf docio e-feiciau yn dal 10 beic, yn Sili, gyda rhagor o gyllid i'w geisio yn y dyfodol i estyn y cynllun ymhellach (ar hyd RhBC 88).
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	(Blaenoriaeth 5 o 10)
Amserlen Ddisgwyliedig	6 mis
Amcan Gost	£70,000

Enw'r Cynllun	Prynu a gosod cysgodfannau beiciau mewn ysgolion
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg
Cyfeiriad(au) ERM/INM	Dd/b
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Y llynedd, bu modd i ni osod 5 stand/cysgodfan beiciau yn ein hysgolion cynradd gan ddefnyddio Arian Dyrannu Craidd. Hoffem gyflwyno hyn i ragor o ysgolion yn y Fro. Mae o leiaf 30 o ysgolion sydd naill ai heb le storio ar hyn o bryd, neu sydd angen mwy o le. Rydym yn gwneud cais am gyllid er mwyn darparu podiau sgwteri neu gysgodfannau beiciau ar gyfer o leiaf 8 ysgol ym mlwyddyn ariannol 20-21.
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	Mae llawer o ysgolion y Fro wedi cysylltu â'r Cyngor i ofyn am ddarparu leoedd storio newydd ac ychwanegol ar gyfer beiciau/sgwteri. Rydym yn gofyn am gyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 er mwyn darparu cymaint â phosibl yn y

	flwyddyn ariannol hon – gan ystyried y cyfyngiadau ar ein tîm dylunio ac adeiladu mewnol. (Blaenoriaeth 6 o 10)
Amserlen Ddisgwyliedig	8 mis
Amcan Gost	£64,000

Enw'r Cynllun	Darparu beiciau cydbwysu i ysgolion cynradd
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg
Cyfeiriad(au) ERM/INM	Dd/b
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Prynu beiciau cydbwysu ychwanegol i ysgolion cynradd Bro Morgannwg
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	Y llynedd, bu modd i ni ddarparu 200 o feiciau cydbwysu i'n holl ysgolion cynradd. Derbyniodd pob ysgol 4 beic ond roedd galw am fwy ym mhob ysgol. Hoffem ddarparu o leiaf 2 feic ychwanegol i bob ysgol ym flwyddyn ariannol 20/21. Y gost yw £77 y beic wedi'i gydosod a'i wasanaethu'n llawn ac wedi'i ddanfon. (Blaenoriaeth 7 o 10)
Amserlen Ddisgwyliedig	2 fis
Amcan Gost	£10,000

Enw'r Cynllun	Project Dylunio Strydoedd Cymunedol
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Ysgol Gynradd Fairfield, Penarth
Cyfeiriad(au) ERM/INM	Dd/b
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Rydym yn ystyried creu strydoedd diogel o gwmpas Ysgol Gynradd Fairfield, yn debyg i broject a gwblhawyd yn Ysgol Dewi Sant, Casnewydd. Project 2 flynedd yw hwn ond byddai'r arian ar gyfer yr ail flwyddyn yn dod trwy'r gronfa SRiC.

	<p>Darparwyd y costau bras ar gyfer y flwyddyn gyntaf gan Sustrans fel a ganlyn:</p> <p>Cyd-ddylunio (3 set o weithdai yn ogystal â gweithdai untro cymunedol eraill) gan gynnwys treial ar y stryd, a fydd yn arwain at gynigion amlinellol/rhagarweiniol = £43,300</p> <p>Dyluniad rhagarweiniol i ddyluniad manwl yr ALI (mewnol) i dendro + RhP = £25,000</p> <p>Monitro = £10,000</p>
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	<p>Mae Cyngor Bro Morgannwg a Sustrans wedi gweithio ers blynyddoedd gydag Ysgol Gynradd Fairfield. Mae'r adran Diogelwch ar y Ffyrdd wedi cael nifer o gwynion gan breswylwyr a'r ysgol dros y blynyddoedd eu bod byth a beunydd yn dioddef parcio anystyriol gan rieni wrth ollwng a chasglu eu plant. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru a'r heddlu wedi nodi'r problemau yng nghyffiniau'r ysgol a byddent yn croesawu ymchwiliadau i ddatrys y broblem hon.</p> <p>Bydd y project hwn yn cynnwys plant, athrawon, rhieni a phreswylwyr mewn cynllun i ailgynllunio eu strydoedd i'w gwneud yn fwy diogel.</p> <p>(Blaenoriaeth 8 o 10)</p>
Amserlen Ddisgwyliedig	10 mis
Amcan Gost	£80,000

Enw'r Cynllun	Ailwynebu llwybr – Railway Walk i Berkley Drive
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Penarth
Cyfeiriad(au) ERM/INM	RhBC 88
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	<p>Mae gwaith ailwynebu yn ymwneud â'r haen uchaf yn unig.</p> <p>Mae angen tua 150m o darmacadam.</p> <p>Nid yw'r llwybr wedi'i gofrestru ar hyn o bryd, felly byddai gwaith i fabwysiadu hyn gan yr ALI.</p>
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	Angen ailwynebu llwybr er mwyn creu arwyneb llyfn i gerddwyr a defnyddwyr eraill. Nodwyd hyn gan

	Sustrans yn ystod archwiliad o welliannau INM ym Mhenarth yn hydref 2019. (Blaenoriaeth 9 o 10)
Amserlen Ddisgwyliedig	4 mis
Amcan Gost	£10,000

Enw'r Cynllun	Gwelliannau INM yn seiliedig ar archwiliadau
Rheolwr Project Enw: E-bost:	Kyle Phillips kwphillips@valeofglamorgan.gov.uk
Ardal Ddynodedig/Ardaloedd Dynodedig	Ledled y Fro (yn seiliedig ar INM)
Cyfeiriad(au) ERM/INM	Pob ERM/INM
Math y Gweithgaredd (disgrifiad byr o'r cynllun)	Defnyddio archwiliadau INM presennol i nodi meysydd lle mae angen mân welliannau y gellir eu cyflawni gyda dyluniad ac atgyweiriadau syml.
Yr Achos dros Newid (disgrifiad byr o'r mater cyfredol a'r flaenoriaeth)	Roedd yr archwiliadau a gynhaliwyd pan grëwyd yr INM yn amlygu nifer o feysydd i'w gwella y mae angen cyllid i'w cyflawni. Bydd Tîm Dylunio ac Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg yn defnyddio'r cyllid i wneud nifer o welliannau. Gan ddefnyddio'r Gronfa Ddyrannu Craidd yn 19-20, gwnaethom welliannau yn y Bont-faen, Sili a Llanilltud Fawr, felly byddem yn defnyddio cyllid yn 20-21 ar gyfer ardaloedd eraill. (Blaenoriaeth 10 o 10)
Amserlen Ddisgwyliedig	Hyd at fis Mawrth 2021
Amcan Gost	£100,000